# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 12FED RHAGFYR, 2016**

**I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 2 Rhagfyr 2016)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

### AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Annwen Hughes |
| Christopher Hughes | Dilwyn Morgan |
| W. Tudor Owen | Ann Williams |
| John Wyn Williams | R. H. Wyn Williams |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Louise Hughes |
| Angela Russell | Eryl Jones-Williams |
| Elfed Williams | |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Peter Read |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 20.06.16 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU 7 - 25

Cyflwyno, er gwybodaeth cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:-

a) 21.07.2016
b) 09.08.2016
c) 15.08.2016
ch) 24.08.2016
d) 07.09.2016
dd) 31.10.2016

## 6. DIWEDDARIAD POLISI HAPCHWARAE

Diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 20.06.16

**Yn bresennol**:

Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Tudor Owen, Angel Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams a John Wyn Williams

Hefyd yn Bresennol: Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr Gwasanaethau), Eirlys Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Cymerodd y Cynghorydd Eryl Jones Williams y cyfle i ddiolch i'r aelodau ac i'r swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Tudor Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2016 – 2017**

Diolchwyd i'r Cynghorydd Eryl Jones Williams am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor 2014 - 2016

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Annwen Hughes yn Is Gadeirydd y Pwyllgor am y cyfnod 2016 - 2017**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peter Read ac Wyn Williams a Geraint Brython (Cyfreithiwr)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 7fed o Fawrth 2016 fel rhai cywir yn ddarostyngedig ar nodi bod y Cynghorydd Angela Russell yn bresennol

## 7. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar

07.03.16
05.04.16

## 8. POLISI DOSBARTHU FFILM

a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn argymell y Pwyllgor i fabwysiadau Polisi Dosbarthu Ffilm yn ogystal â chymeradwyo codi ffi ar gyfer dosbarthu ffilm a gweinyddu'r broses er pwrpas adennill costau yn unig.

Amlygwyd bod Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Trwyddedu yn gyfrifol am awdurdodi dangos ffilmiau'n gyhoeddus ac yn unol ag Adran 20 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Nodwyd pan fo Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb yn caniatáu dangos ffilm (Iau), rhaid i'r drwydded gynnwys amod sydd yn nodi y dylid cyfyngu mynediad plant i ffilmiau yn unol â'r argymhellion a wnaed unai gan y British Board of Film Classification (BBFC), neu gan yr Awdurdod Trwyddedu. Pwysleisiwyd bod rhaid i ffilmiau sy'n cael eu dangos yn gyhoeddus ar eiddo trwyddedig gael eu dosbarthu gan y BBFC neu eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu dan bwerau Deddf Trwyddedu 2003.

Nodwyd mai pwrpas y Polisi Dosbarthu Ffilm yw llunio trefn ffurfiol i'r Awdurdod Trwyddedu ddosbarthu ffilm. Y prif amcan trwyddedu mwyaf perthnasol yw Amddiffyn Plant Rhag Niwed. Amlygwyd yn yr adroddiad y canllawiau perthnasol ar gyfer dosbarthu ffilm ynghyd â sefyllfaoedd gwahanol y gall cais ddod i law.

O ran trefn, nodwyd y byddai'r pŵer i awdurdodi dosbarthiad ffilm yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Rheoleiddio gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog. Unwaith bydd ffilm wedi ei hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu, bydd yn cael ei awdurdodi ar gyfer arddangosfa neu ŵyl benodol yn unig, yn amodol ar yr argymhellion a osodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu (oni bai y gwnaed cais am ailddosbarthiad pellach).

Yng nghyd-destun gosod ffioedd, amlygwyd nad oedd unrhyw ffi statudol wedi ei bennu yn y ddeddfwriaeth ar gyfer pwrpas dosbarthu ffilmiau ac i adennill costau'r broses yn unig mae rhai Awdurdodau lleol yn codi ffioedd. Ystyriwyd y byddai yn rhesymol cyflwyno ffi am y broses fyddai yn adlewyrchu cost amser y swyddog yn gwylio'r ffilm ynghyd a chost cynhyrchu a phrosesu'r dystysgrif.

b) Mewn ymateb i gwestiwn nodwyd y bydd y ffi yn amrywio ac yn cael ei fesur yng nghyd-destun hyd y ffilm. O ran egwyddor, nid oes angen gosod ffi rhy uchel gan fod angen hybu dangos ffilmiau ond eto rhaid ystyried yr egwyddor o adennill costau. Awgrymwyd codi ffi am £30 am gynhyrchu a phrosesu'r dystysgrif ynghyd ag amser swyddog yn gwylio'r ffilm.

c) Mewn ymateb i gwestiwn nodwyd na fyddai'r polisi yn cael effaith ar noson ffilmiau mewn neuaddau cymunedol cyn belled a bod trwydded gan y neuadd. Amlygwyd mai cyfrifoldeb deilydd y drwydded fydd sicrhau bod trwydded yn ddilys neu geisio am drwydded digwyddiad dros dro ynghyd a phenderfynu sut fydd y digwyddiad yn cael ei reoli.

ch) Mewn ymateb i sylw bod angen cynnal trafodaeth am reoli ffilmiau / darnau o ffilmiau ar ddyfeisiadau digidol, nodwyd bod cyfrifoldeb moesol ar aelodau a swyddogion i fonitro hyn. Nodwyd bod y polisi yn caniatáu gwrthod dosbarthu ffilm (oherwydd rhesymau dadleuol, anaddas i blant neu peri pryder i gymdeithas), hyd yn oed os yw wedi ei ddosbarthu gan y BBFC.

d) Mewn ymateb i awgrym petai penderfyniad yn mynd i apêl a bod is bwyllgor yn cael ei ffurfio i drafod rhesymau gwrthwynebu i geisio dealltwriaeth, amlygwyd bod hyn yn awgrym digon teg, ond nad oedd cyfundrefn statudol ar gyfer hyn. Amlygodd y Cyfreithiwr petai cais dadleuol yn cael ei gyflwyno byddai Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn defnyddio disgresiwn i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog ynghyd ag argymhelliad.

dd) Cynigiwyd ac eiliwyd i fabwysiadu'r polisi

e) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau unigol;

- petai y nifer o geisiadau yn cynyddu bydd rhaid ystyried capasiti yr Adran Trwyddedu
- petai amryw o geisiadau dadleuol yn cael eu cyflwyno bydd modd addasu'r polisi
- rhaid sicrhau diogelwch plant
- angen cyfeirio'r penderfyniad at yr Aelod Cabinet i sicrhau cymeradwyaeth

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r polisi yn ogystal â chymeradwyo codi ffi ar gyfer dosbarthu ffilm er pwrpas addennil costau yn unig**

## 9 POLISI HAPCHWARAE / GAMBLO

a) Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu yn amlygu bod y Polisi Hapchwarae / Gamblo wedi ei gwblhau (fersiwn drafft). Amlygwyd bod y proffiliau ardal wedi eu creu ac wedi eu cyflwyno fel atodiad i'r polisi. Nodwyd nad oedd y polisi ar gael i'w gyflwyno i'r aelodau gan fod angen sicrhau cysondeb gyda chynghorau eraill y Gogledd. Nodwyd y byddai'r polisïau yn cael eu trafod mewn cyfarfod rhanbarthol er mwyn sicrhau cysondeb a bod y gwaith yn mynd i'r un cyfeiriad.

b) Yng nghyd-destun y proffiliau ardal, amlygwyd nad oedd rhain wedi amlygu problemau sylweddol megis *hotspots* trosedd ac anrhefn o ganlyniad i gamblo.

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau unigol:

- Mai ardaloedd tlawd sydd yn gweld yr effaith fwyaf
- Pryder bod gamblo yn hawdd cael ato
- Gormod o hysbysebion yn ymwneud â gamblo ar y teledu sydd yn annog pobl i ddefnyddio eu ffonau symudol i osod bet.

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd i osod eitem ar raglen y Pwyllgor i annog trafodaeth ar bryderon hapchwarae / gamblo gyda'r bwriad o gyfeirio'r sylwadadu at y Comisiwn Gamblo.

Derbyiwyd y sylw ac atgofffwyd yr aelodau y byddai cofnodion o'r Pwyllgor hwnnw yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Nodwyd, pan fyddai'r Polisi yn cael ei gyhoeddi bydd cyfle i aelodau unigol a/neu'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 21.07.16

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Eryl Jones-Williams (Cadeirydd), Annwen Daniels a Louise Hughes
**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – THE FIRECAT COUNTRY HOUSE B&B, CAMLAN UCHAF, MALLWYD**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Robin Worgan (ymgeisydd) ac Amber Worgan

**Aelod Lleol:** Cynghorydd John Pughe Roberts

**Eraill a fynychwyd:** Arfon Hughes (Cyngor Cymuned Mawddwy), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd – Cyngor Gwynedd)

a) Nododd y Cadeirydd bod yr Is Bwyllgor, yn dymuno gohirio'r cyfarfod er mwyn trefnu ymweliad safle i aelodau'r Is Bwyllgor ystyried yn llawn y pryderon a fynegwyd gan wrthwynebwyr i'r cais ar sail mynediad i'r safle.

b) Amlygodd y Cyfreithiwr bod Diogelwch y Cyhoedd yn un o egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003. Nododd mai synhwyrol fuasai cynnal ymweliad safle gan mai un o brif gyfrifoldebau yr Is Bwyllgor yw ystyried diogelwch y cyhoedd

**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle ac ail drefnu gwrandawiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:15am a daeth i ben am 1:30pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 09.08.16

**Yn bresennol:**

**Cynghorwyr** : W Tudor Owen (Cadeirydd), Ann Williams ac Annwen Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – GLASS BUTTER BEACH, CARREG Y DEFAID, LLANBEDROG, PWLLHELI**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Mark Durston (ymgeisydd)

**Aelodau Lleol:** Cynghorydd Angela Russell (Llanbedrog) a R.H Wyn Williams (Abersoch)

**Eraill a fynychwyd:** Arolygydd Dewi Owen (Heddlu Gogledd Cymru), Ian Williams (Swyddog Trwyddedu – Heddlu Gogledd Cymru), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywiad i drwydded eiddo ar gyfer Glass Butter Beach, Carreg y Defaid, Llanbedrog mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw, perfformiadau dawns, dangos ffilmiau a dramâu, unrhyw adloniant arall a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos. Nodwyd bod yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

   Amlygwyd bod trwydded gyfredol yn bodoli ar gyfer y digwyddiad yn y lleoliad presennol ers 2014 ac fe dynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig ac oriau'r gweithgareddau ar y drwydded gyfredol.
   Rhoddwyd ychydig o gefndir yr Ŵyl ac fe amlygwyd y prif resymau dros gyflwyno cais o'r newydd. Bod bwriad,

   - cynyddu'r Ŵyl i dderbyn cynulleidfa hyd at 9,999
   - ymestyn y penwythnos i gynnwys adloniant rheoledig a gweithgareddau trwyddedig

eraill

- dechrau gweithgareddau trwyddedig yn gynt ar y pnawn iau gan gyflenwi alcohol awr yn hwyrach ar y nos Iau (tan 00:30), ond dod a gweithgareddau trwyddedig eraill (ar wahân i ddarparu lluniaeth hwyr y nos) i ben am hanner nos fel yn y drwydded gyfredol.
- cyflenwi alcohol am ddwy awr yn hwyrach ar y nos Wener a nos Sadwrn tan 02:00
- cael hanner awr ychwanegol ar gyfer gweithgareddau trwyddedig eraill gan gynnwys cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio tan 01:30.

Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'r cais.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd mai argymhellion a sylwadau am newidiadau yn unig a dderbyniwyd i'r cais ac nid gwrthwynebiadau. Cyfeiriwyd at y sylwadau a dderbyniwyd gan Cyngor Cymuned Llanbedrog, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac Adran Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:

- Buddsoddwyr allanol bellach yn cefnogi'r Ŵyl ac felly strwythur newydd i'r Ŵyl wedi ei gyflwyno. Amlygwyd bod penderfyniad wedi ei wneud i gyfyngu oedran y gynulleidfa (16+ - 35) a bod yr Ŵyl bellach yn cael ei ddylunio ar gyfer hyn.
- Cynllun Busnes Tair Blynedd wedi ei gyflwyno - y bwriad yw cynyddu'r Ŵyl i dderbyn cynulleidfa hyd at 9,999.
- Bod gwasanaethau proffesiynol yn cael eu cyflogi ar gyfer monitro sŵn, casglu sbwriel, monitro mynedfa i bobl ifanc dros 16 oed ac iechyd a diogelwch
- Ymddiheuro bod yr elfen gyfathrebu wedi bod yn araf
- Bod Her 21 a Her 25 yn cael ei gefnogi
- Ei fod yn barod i gydweithio er mwyn sicrhau llwyddiant

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â safle'r Ŵyl, cadarnhawyd y prif leoliad a beth oedd yn digwydd ymhob cae.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwynion oedd wedi dod i law yn hanes yr Ŵyl, amlygwyd bod nifer o gwynion am sŵn wedi eu cyflwyno gan un person dros y blynyddoedd. Amlygodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd cwynion swyddogol wedi ei derbyn y llynedd, ond bod amryw wedi amlygu pryderon am y gwaith clirio, y fynedfa a sŵn cerddoriaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd mai 16+ oedd oed mynychu'r Ŵyl ac nad oedd wedi ei ddylunio eleni ar gyfer teuluoedd. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut oedd sicrhau nad oedd plant o dan 16 yn cael mynediad a sut oedd rheoli ymddygiad, nododd yr ymgeisydd bod cwmni diogelwch proffesiynol ar y safle yn monitro ymddygiad y gynulleidfa ynghyd a phresenoldeb staff meddygol ac adnoddau llesiant. Nodwyd bod polisi cadarn ar y bariau i werthu i alcohol i 18+ yn unig a bod 'pabell ddalfa' ar gyfer cadw plant o dan 16

oed, sydd wedi ceisio mynediad, nes bydd person cyfrifol yn dod i'w casglu o'r safle. Nodwyd bod timau da ar gyfer rheoli pob sefyllfa a bod y paratoadau i gyd wedi eu trefnu ar gyfer derbyn cynulleidfa o 5,000 (er bod nifer y tocynnau ar hyn o bryd oddeutu 3,500).

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd y Cynghorydd Angela Russell (Aelod Lleol a chynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanbedrog) bod Llanbedrog yn croesawu'r Ŵyl ar y cyfan, ond bod pryderon wedi eu hamlygu mewn cyfarfod diweddar. Nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol:

- Cais i gadw Llwybr yr Arfordir yn agored
- Cyfyngu'r ffordd 30 milltir yr awr i osgoi problemau traffic
- Bod angen clirio'r safle yn gyfan gwbl ar ôl i'r Ŵyl ddod i ben
- Awst yn fis prysur yn yr ardal - sut gellir ymdopi gyda chynnydd
- Bod angen i'r ymgeisydd gyfathrebu yn well gyda'r Cyngor Cymuned fel bod modd cynnal trafodaethau cyn cynnig sylwadau

Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd nad oedd cwynion wedi eu derbyn gan y Cyngor Cymuned nac yr Aelod Lleol

d) Wedi derbyn hawl gan y Cadeirydd i siarad, nododd y Cynghorydd Wyn Williams (Aelod Ward Ffiniol) ei fod yr adnabod yr ymgeisydd yn dda a'i fod yn gefnogol iawn i'r digwyddiad. Er hynny, amlygodd bryderon yr hoffai i'r ymgeisydd eu hystyried i'r dyfodol megis

- cynnal y digwyddiad tu allan i brysurdeb mis Awst
- ystyried symud safle petai'r Ŵyl yn cynyddu
- ymateb yn gynt i ofynion yr Heddlu a Gwarchod y cyhoedd - cryfhau cydweithio

dd) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, cadarnhaodd Mr Ian Williams ar ran Heddlu Gogledd Cymru nad oeddynt yn gwrthwynebu y cais. Er hynny nodwyd nad oedd yr Heddlu wedi cael cyfle i ymateb yn llawn i'r cais gan fod dogfennau wedi cyrraedd ychydig cyn dyddiad cau y cais. Cadarnhawyd bod strwythur a chynlluniau ar gyfer yr Ŵyl yn eu lle

Yn manteisio ar ei hawl i siarad, ychwanegodd yr Arolygydd Dewi Jones bod yr Heddlu yn cefnogi'r Ŵyl a bod digwyddiad o'r fath yn bwysig i'r economi leol. Er hynny amlygwyd rhai pryderon a sylwadau: yn ychwanegol i'r amodau a gyflwynwyd.

- Iechyd a diogelwch y cyhoedd yw blaenoriaeth yr Heddlu ac felly rhaid cael dogfennaeth briodol o fewn amser rhesymol i sicrhau cydweithio da a Gŵyl lwyddiannus. Cynigiwyd bod amod yn cael ei roi ar y drwydded am rybudd amser o 3 mis gyda chynlluniau trefniant yr Wyl. Gwnaed cais hefyd am wybodaeth ynglŷn â'r niferoedd disgwyliedig.
- Gwerthiant tocynnau - amlygwyd bod yr heddlu wedi gwneud prawf gwerthiant gyda phedwar o'r sefydliadau gwerthu tocynnau. Adroddwyd bod y pedwar safle wedi methu y prawf drwy werthu tocynnau i blant o dan 16 oed. O ganlyniad, gwnaed cais am amod i'r ymgeisydd brofi'r sefydliadau eraill oedd yn gyfrifol am werthu tocynnau gyda phrawf bod hyn wedi ei weithredu
- Cais i'r ymgeisydd arwyddo a chydweithio gyda Pubwatch Gwynedd
- Sicrhau bod yr Heddlu yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad trosedd ac anrhefn yn union syth gan y Cwmni Diogelwch
- Cais i gynnwys amod i gynnal cyfarfod dad friffio o fewn tri mis ar ôl er mwyn dysgu gwersi a pharatoi am y flwyddyn ganlynol. Cais i'r wybodaeth o'r cyfarfod yma gael ei gydlynu gyda'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiad
- Cais i fiwsig y ffair ddod i ben yr un amser a cherddoriaeth yr Ŵyl
- Cais i'r ymgeisydd wneud profion gwerthu alcohol yn ystod yr Ŵyl a bod canlyniadau'r prawf yn cael ei rannu gyda phob awdurdod cyfrifol.

Ategwyd bod gwasanaethau heddlu ychwanegol wedi cael eu trefnu ar gyfer yr Ŵyl a bod yr ymgeisydd wedi cydweithio yn llawn er bod y manylion wedi eu cyrraedd yn hwyr. Mewn ymateb i gwestiwn, amlygwyd petai achos o drosedd ac anrhefn, byddai'r ddalfa yng Nghaernarfon. Gwnaed cais i'r Arolygydd baratoi geiriad i'r amodau ychwanegol yr oedd yn ei gynnig er penderfyniad.

e) Cydnabuwyd llythyr a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Tân. Amlygwyd eto, bod sylw yn cael ei wneud ynglŷn â derbyn cynlluniau / dogfennaeth o leiaf mis cyn y digwyddiad.

f) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y newidiadau i'r drwydded bresennol ynghyd a phryderon o fwriad yr ymgeisydd i ymestyn oriau ar gyfer adloniant. Nodwyd bod yr Ŵyl yn hanesyddol wedi arwain at gwynion sŵn gan drigolion lleol ac yn ychwanegol roedd y trefnwyr wedi methu a phenodi unigolyn i reoli materion sŵn yr Ŵyl.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd amlygwyd bod rhaid cydymffurfio gydag amodau rheoli sŵn. Adroddwyd bod yr ymgeisydd bellach wedi penodi dau gwmni i ddatblygu Cynllun Rheoli Sŵn ar gyfer yr Ŵyl ac i oruchwylio mater sŵn yn ystod yr Ŵyl gyda sicrwydd y bydd sŵn yn cael ei reoli yn llym. Adroddwyd bod y cwmni Aria Acoustics yn gwmni profiadol a chymwys ac wedi dangos eu gallu i reoli sŵn yn llwyddiannus o dan amgylchiadau heriol. Nodwyd bod yr Adran wedi derbyn cynllun rheoli sŵn da, sydd yn adlewyrchu'r amodau oedd yn cael eu cynnig gan yr Adran Iechyd ac Amgylchedd.

ff) Wrth grynhoi ei gais, ac ymateb i'r sylwadau, nododd yr ymgeisydd ei fod yn derbyn y sylwadau ac yn cydnabod yr angen am drafodaeth ymlaen llaw. Amlygodd bod materion cyfyngu cyflymder wedi ei drafod gyda'r Adran Priffyrdd ac ymddiheurodd nad oedd y safle wedi ei glirio yn gyfan gwbl ar ôl Gŵyl 2015. Addawodd na fyddai hyn yn digwydd eto. Derbyniodd hefyd y sylwadau a wnaed i gynnal trafodaethau petai cynnydd sylweddol yn yr Ŵyl (o ran safle) a'r angen i ystyried symud yr Ŵyl allan o gyfnod gwyliau mis Awst.. Amlygodd bod nifer o gwmnïau proffesiynol yn cefnogi'r Ŵyl gyda threfniadau craff ar gyfer rheoli gwastraff a rheoli traffig - mynegodd bod bysiau wennol yn cael eu defnyddio eleni am y tro cyntaf.

Ymddiheurodd bod rhannu dogfennaeth gyda'r awdurdodau cyfrifol wedi bod yn hwyr a bod hyn o ganlyniad i'r gwaith caled oedd wedi ei wneud o gydlynu cwmnïau, dyrannu cyfrifoldebau a chanolbwyntio ar wella ansawdd y wybodaeth oedd i'w gyflwyno. Nodwyd hefyd bod agweddau diogelwch wedi cael ystyriaeth lawn.

O ganlyniad i fethiant y profion gwerthiant, nododd bod pob sefydliad wedi derbyn llythyr swyddogol a bod pob gwerthiant tocyn i dderbyn nodyn reolaeth mynediad. Adroddodd hefyd ei fod wedi gweithio yn agos gyda'r Uwch Swyddog yr Amgylchedd i sicrhau Gŵyl lwyddiannus.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd ynghyd a sylwadau ysgrifenedig a llafar y partïon â diddordeb. Rhoddwyd sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed, ynghyd ag Arweiniad y Swyddfa Gartref.

**PENDERFYNIAD - caniatáu'r cais, yn ddarostyngedig i argymhellion yr Heddlu ac Iechyd**

**Amgylcheddol**

**Nodwyd yn benodol nad oedd gwrthwynebiad oddi wrth unrhyw barti a gyflwynodd sylwadau ond bod pryderon wedi dod i law o ran diogelwch y ffordd, gwerthiant dan oed, sbwriel a sŵn. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, fodd bynnag, bod yr amodau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd yn ei ffurflen gais, ynghyd â'r amodau teledu cylch cyfyng ac amodau parthed briffio a dad-friffio a argymhellwyd gan yr Heddlu, a'r amodau rheoli sŵn a argymhellwyd gan Iechyd Amgylcheddol, yn gamau priodol er mwyn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.**

**Nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod angen cyflwyno amodau ar y drwydded o ran y deilydd yn gorfod monitro cydymffurfiaeth siopau sydd yn gwerthu tocynnau ar ran y deilydd. Yn nhyb yr Is-bwyllgor, cyfrifoldeb y siopau unigol yw sicrhau cydymffurfiaeth oedran.**

**Nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod angen amodau o ran aelodaeth Pubwatch, adrodd digwyddiadau trosedd ac anhrefn na gwasanaeth plismona arbennig. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y pethau hyn yn faterion dylai gael eu trefnu yn wirfoddol rhwng y deilydd a'r Heddlu.**

**O ran cyfyngiadau cyflymder ar y ffordd fawr, ystyriodd yr Is-bwyllgor mai mater priffyrdd oedd hyn tu allan i sgôp y Ddeddf Trwyddedu 2003. Yn yr un modd mater rhwng deilydd y drwydded a'r tirfeddiannwr fyddai unrhyw broblem sbwriel ar y safle, ac felly ni fyddai'n disgyn o fewn y Ddeddf.**

**Gwyrwyd y drwydded fel a ganlyn:**

1. **Gwyrwyd yr oriau a ganiatawyd mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig yn unol â'r cais.**
2. **Bod y materion yn rhan M o'r cais yn cael eu hymgorffori fel amodau ar y drwydded.**
3. **Ychwanegu amod i'r drwydded bod deilydd y drwydded yn cynnal system teledu cylch cyfyng i oruchwylio mannau mynediad y brif safle a'r ardal wersylla; bod y system honno o ansawdd digonol i allu recordio yn ystod oriau tywyllwch; bod recordiadau yn cael eu cadw heb eu golygu am gyfnod o ddim llai na mis; a bod y recordiadau ar gael ar alw ar unwaith ar gais yr Heddlu neu'r Awdurdod Trwyddedu.**
4. **Ychwanegu amod i'r drwydded bod o leiaf 3 mis o rybudd o ddyddiad digwyddiad yn cael ei ddarparu i'r Heddlu, ac ar yr un pryd bod angen cyflwyno cynlluniau i'r awdurdodau cyfrifol gan gynnwys manylion niferoedd arfaethedig, amseroedd a dyddiadau.**
5. **Ychwanegu amod i'r drwydded bod cyfarfod dad-friffio yn cael ei gynnal o fewn 3 mis o unrhyw ddigwyddiad, i'w gydlynu gyda'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiad.**
6. **Ychwanegu fel amodau i'r drwydded yr amodau arfaethedig rheoli sŵn a argymhellwyd gan Iechyd Amgylcheddol.**
7. **Dileu oddi ar y drwydded unrhyw amodau sydd yn bodoli eisoes sydd yn anghyson â'r amodau newydd a gyflwynwyd gan yr Is-bwyllgor wrth ganiatáu'r cais hwn.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:50pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 15.08.16

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Eryl Jones-Williams (Cadeirydd), Annwen Daniels a Louise Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd – Cyngor Gwynedd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – THE FIRECAT COUNTRY HOUSE B&B, CAMLAN UCHAF, MALLWYD**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Annwen Daniels ar ei phenodiad fel Is Gadeirydd y Cyngor.

Atgoffwyd pawb bod y gwrandawiad a gynhaliwyd 21.7.2016 wedi ei ohirio er mwyn i'r Is Bwyllgor Trwyddedu gynnal ymweliad safle yn dilyn gwrthwynebiadau i'r cais ar sail diogelwch y cyhoedd. Cadarnhawyd bod Aelodau'r Is Bwyllgor wedi ymweld â'r safle 28 Gorffennaf 2016 gyda'r Swyddog Trwyddedu.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Robin Worgan (ymgeisydd) ac Amber Worgan

**Aelod Lleol:** Cynghorydd John Pughe Roberts

a) **Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer The Firecat Country House Bed and Breakfast, Mallwyd mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw perfformiadau dawns, dangos ffilmiau a dramâu, unrhyw adloniant arall a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos. Gofynnwyd am hawl i gyflenwi alcohol a chynnal adloniant tu fewn a thu allan i'r eiddo hyd 1:00 y bore, saith diwrnod yr wythnos. Eglurwyd bod yr eiddo yn cael ei redeg fel gwesty gwely a brecwast bychan, gyda thair llofft yn cael eu gosod i westeion.

Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig, ond nodwyd ers cyflwyno y cais bod yr amgylchiadau wedi newid a bod y cais wedi ei ddiwygio. Amlygwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd yn cadarnhau'r diwygiadau hyn.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu (fel rhan o'r cais gwreiddiol) ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod yr Aelod Lleol, y Cyngor Cymuned a phreswylwyr cyfagos yn gwrthwynebu gweithgareddau trwyddedig ar gyfer rhai nad ydynt yn breswylwyr. Roedd y gwrthwynebiadau yn gyffredinol yn cael eu gwneud ar sail yr amcanion trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd.

Nodwyd nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais, ac yn dilyn ymweliad i'r safle, nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i weithredu Polisi Her 25. Nid oedd y Gwasanaeth Tân yn gwrthwynebu'r cais, ond rhoddwyd argymhelliad o ran niferoedd y dylid eu caniatáu o fewn ystafelloedd cyhoeddus yr adeilad.

Cyfeiriwyd at sylwadau ac argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a oedd wedi cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd i geisio mwy o fanylion am gynnwys y cais. Gohebwyd ynglŷn ag amlder digwyddiadau ac adroddwyd nad oedd digon o fanylion i benderfynu os oedd y rhagofalon cywir yn debygol o gael eu gweithredu i sicrhau na fyddai'r amcan trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus yn cael ei danseilio. Amlygwyd mai gwrthod y cais gwreiddiol fyddai awgrym y Swyddog, ond yn dilyn trafodaethau pellach a diwygiadau i'r cais gwreiddiol, cadarnhawyd nad oedd gan y Swyddog unrhyw wrthwynebiad i werthiant alcohol a darparu lluniaeth hwyr y nos.

Cyfeiriwyd at ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Parc Cenedlaethol (nad oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad) lle amlygwyd gan fod dros 50% o'r ystafelloedd gwely o fewn yr eiddo yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion gosod, byddai rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer y busnes. Ategwyd nad oedd hyn yn fater trwyddedu a bod angen i'r ymgeisydd drafod ymhellach gyda'r Parc.

Yn dilyn diwygiadau i'r cais gwreiddiol, amlygodd y Rheolwr Trwyddedu, bod yr ymgeisydd bellach, yn dilyn trafodaethau gyda'r Swyddogion Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd, wedi penderfynu cynnwys alcohol a lluniaeth hwyr y nos yn unig ac y byddai yn dymuno manteisio ar eithriadau'r Ddeddf Gerddoriaeth Fyw 2012 ar gyfer dangos ffilmiau, perfformiadau dawns, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio tan 11 yr hwyr, yn unig. Tynnwyd sylw at y manylion llawn yn yr adroddiad.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:
- Mai ei unig fwriad oedd cynnig potel o win i'w gwesteion gyda'u swper
- Y byddai llai o fynd a dod o'r safle wrth i westeion aros ar y safle
- Trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Heddlu, Y Gwasanaeth Tân a'r Parc Cenedlaethol

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd y Cynghorydd John Pugh Roberts (Aelod Lleol a chynrychiolydd Cyngor Cymuned Mawddwy) y sylwadau canlynol:
- Ei fod yn gefnogol i fentrau newydd, ond wedi amlygu pryderon gyda materion trwyddedu mewn ardal wledig
- Bod yr eiddo o fewn i'r Parc Cenedlaethol – lle i bobl gael llonydd

- Wedi gwrthwynebu y cais gwreiddiol, ond bellach wedi newid i feddwl yn dilyn diwygiad i'r cais
- Cyngor Cymuned hefyd yn gefnogol i'r cais diwygiedig

d) Wrth grynhoi ei gais, nododd yr ymgeisydd

- Ei fod yn derbyn y sylwadau
- Amlygodd bod preswylwyr yn darparu eu halcohol eu hunain, ac os na fydd y drwydded yn cael ei chaniatáu, byddai'r drefn yma yn parhau
- Bod bwriad i ddarparu basged picnic i breswylwyr i gynnwys potel o win
- Bydd alcohol ar gael i breswylwyr yn unig
- Bod mwy o fynd a dod gyda gwerthiant wyau drws nesaf
- Dim ond tair ystafell wely sydd ar gael i'w gosod felly mwyafrif o chwe pherson
- Bwriad efallai i baratoi cinio nos ar gyfer preswylwyr sydd yn defnyddio bwthyn gwyliau cyfagos
- Bod y ffordd i'r safle mor llydan â phriffordd
- Y gwesty wedi bod yn agored ers 12 mis, dim materion wedi codi yn y cyfnod yma.

dd) Trafodwyd y cais diwygiedig gan aelodau'r Is Bwyllgor ac fe ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef;

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

ynghyd a chanllawiau'r Swyddfa Gartref a pholisi trwyddedu'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn unol â'r cais diwygiedig**

**Rhoddwyd ystyriaeth i sylwadau'r Cynghorydd John Pughe Roberts, Cyngor Cymuned Dinas Mawddwy, Mr Boulton, Mr Negus a Mrs Clarke, a oedd yn codi pryder am y lefelau sŵn tebygol yn deillio o'r fangre, yn ogystal â'u heffaith ar y Parc Cenedlaethol, trigolion lleol, da byw ac ati. Tra bo'r Is-bwyllgor yn derbyn bod y sylwadau hyn wedi cael eu gwneud gydag ymddiriedaeth a bod sŵn yn gallu bod o bosib yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ar y dystiolaeth o'u blaenau mai canlyniad tebygol rhoi trwydded alcohol a lluniaeth hwyr nos fyddai problem sŵn sy'n destun niwsans cyhoeddus. Yn benodol, ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth o'r lefelau sŵn disgwyliedig, nifer o ddigwyddiadau sŵn, amledd y digwyddiadau hynny, pa mor hir fyddai pob digwyddiad yn para na'r nifer o bobl fyddai'n cael eu heffeithio. Heb y fath ddata gwrthrychol roedd yn amhosib i'r Is-bwyllgor ddweud yn fwy tebygol na pheidio y byddai'r drwydded, petai'n cael ei roi, yn arwain at niwsans cyhoeddus. Nodwyd bod y swyddog Iechyd Amgylcheddol wedi codi pryderon am sŵn, ond bod y rheiny i'w priodoli i'r cais gwreiddiol o ran adloniant. Nid oeddent yn deillio o'r darnau alcohol a lluniaeth hwyr nos o'r cais, darnau nad oedd Iechyd Amgylcheddol wedi codi gwrthwynebiadau yn eu cylch. Am y rhesymau hyn nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y cais yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.**

**Ystyriodd yr Is-bwyllgor yn ogystal sylwadau parthed cyflwr y ffordd yn arwain i'r fangre, yr oeddent wedi cael budd o ymweliad safle yn ei chylch. Daethant i'r casgliad, fodd bynnag, yn sgil defnydd bwriedig y drwydded fangre - i werthu gwin i drigolion adeg pryd o fwyd neu ar gyfer bocs bwyd - mai prin oedd y dystiolaeth y byddai rhoi'r drwydded yn arwain at unrhyw gynnydd sylweddol mewn traffic ac unrhyw bryder o ran diogelwch cyhoeddus**

**Yn yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y drwydded a roddwyd yn gyson â'r amcanion trwyddedu.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:20pm a daeth i ben am 3:30pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 24.08.16

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Tudor Owen (Cadeirydd), John Brynmor Hughes ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – D H Convenience Store, 109 Stryd Fawr Bangor, LL57 1NS.**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Ar ran yr eiddo:** Mr David James Hughes a Carla Cordeiro

**Eraill a wahoddwyd:** Donna Evans (Swyddog Masnachu Teg - Cyngor Gwynedd)
Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

a) **Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer D H Convenience Store, 109 Stryd Fawr, Bangor mewn perthynas â gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo, cerddoriaeth wedi ei recordio (cefndirol yn y siop), a dangos ffilmiau. Gofynnwyd ar yr hawl i gyflenwi alcohol rhwng 8:00 y bore a 23:00 yr hwyr, 7 diwrnod yr wythnos.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd nad oedd yr Heddlu na Safonau Masnach Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r cais, ond wedi cyflwyno sylwadau. Adroddwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno, yn dilyn ymweliad i'r safle gan yr Heddlu, nad oedd angen gofyn am weithgareddau trwyddedig o ddangos ffilmiau a cherddoriaeth wedi ei recordio ar y cais. Roedd yr ymgeisydd hefyd wedi cytuno i weithredu Her 25 ynghyd â derbyn amodau teledu cylch cyfyng ar y drwydded. Yng nghyd-destun sylwadau ac argymhellion Safonau Masnach Cyngor Gwynedd, nodwyd bod yr ymgeisydd yn destun ymchwiliad cyfredol gan y gwasanaeth a bod hyn yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd Ms Cordeiro, ar ran yr ymgeisydd ei bod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:

- Eu bod yn cytuno gyda sylwadau ac argymhellion yr Heddlu ac am weithredu Her 25 a gosod teledu cylch cyfyng
- Eu bwriad yw gwerthu alcohol i'w yfed tu allan i'r eiddo
- Bod ymchwiliad y gwasanaeth safonau masnach yn ymwneud a thybaco anghyfreithlon
- Ni fuasai unrhyw ymddygiad o niwsans yn cael ei ganiatáu ar y safle
- Byddai unrhyw un o dan ddylanwad alcohol yn cael ei hel allan - dim goddefiant
- Yn fodlon gyda chynnwys y cais

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd eu bod yn dileu chwarae ffilmiau a cherddoriaeth o'r cais. Mewn ymateb i sylw am sut i atal gwerthu alcohol i unigolion o dan oed, nodwyd y byddant yn monitro cwsmeriaid rheolaidd gyda phatrymau prynu gwahanol ac yn gofyn am weld cerdyn adnabod yn amlygu dyddiad geni.

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd Swyddog Trwyddedu ar ran yr Heddlu y sylwadau canlynol:

- Yn cadarnhau ei fod wedi trafod y cais gyda'r ymgeisydd a bod yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau Her 25 a Theledu Cylch Cyfyng gan sicrhau y byddai delweddau / recordiau o'r teledu cylch cyfyng ar gael petai angen.
- Bod y gerddoriaeth ar ffilmiau cefndir yn achlysurol ac felly nad oedd angen trwydded
- Bod gwerthiant alcohol o 8am bellach yn gyffredin, o ran oriau
- Bod yr ymchwiliad, a oedd yn ymwneud a thybaco anghyfreithlon, wedi dod i sylw'r Heddlu yn Nhachwedd 2015. Roedd yn ymwneud a swm sylweddol o dybaco anghyfreithlon

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Swyddog bod yr Heddlu wedi ymchwilio i'r cyhuddiad o feddiant tybaco anghyfreithlon heb rybudd mewn Saesneg ar y pacedi, ac wedi penderfynu peidio mynd ymlaen gyda'r achos ac felly, o safbwynt yr Heddlu, yr achos wedi cau.

Mewn ymateb, nododd yr ymgeisydd bod y tybaco wedi ei brynu o Farchnad Pwllheli yn anwybod iddynt ei fod yn anghyfreithlon. Nid oedd y tybaco wedi cael ei werthu ymlaen ac nad oedd gwerthu sigaréts a thybaco yn fwriad yn y siop ar hyn o bryd oherwydd costau uchel. Byddai hyn yn cael ei adolygu yn y dyfodol.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Swyddog Masnach bod eu hymchwiliad hwy yn parhau gan fod Deddfau Gorfodaeth Safonau Masnach yn wahanol i Ddeddfau'r Heddlu. Amlygwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Mr Hughes a bod penderfyniad yn debygol o gael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf.

d) Wrth grynhoi y cais, nododd yr ymgeisydd

- Ei bod yn hapus gyda'r sylwadau
- Bod bwriad ganddynt i gadw tu allan i'r siop yn lân a thaclus
- Eu gobaith yw adeiladu busnes llwyddiannus

dd) Trafodwyd y cais diwygiedig gan aelodau'r Is Bwyllgor ac fe ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef;

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

ynghyd a chanllawiau'r Swyddfa Gartref a pholisi trwyddedu'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais diwygiedig ar gyfer gwerthiant alcohol yn unig ac i gynnwys amodau teledu fel yr argymhellwyd gan yr Heddlu.**

Ystyriwyd sylwadau'r Gwasaneth Safonau Masnach bod ymchwiliad yn mynd rhagddo i honiadau bod yr ymgeisydd wedi gwerthu tybaco ffug a bod tybaco yn cael ei werthu heb rybudd mewn Saesneg ar y pacedi. Tra bo'r Is-bwyllgor yn derbyn bod y materion hyn o bosib yn gallu bod yn berthnasol i'r amcanion o atal trosedd ac anhrefn a diogelu diogelwch cyhoeddus, nid oeddynt dim mwy na chyhuddiadau ar hyn o bryd. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn, petai'r ymgeisydd yn cael ei ganfod yn euog o'r fath gyhuddiadau, ni fyddai hynny o reidrwydd yn berthnasol i werthiant alcohol. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymchwiliad a oedd yn mynd rhagddo i droseddau o werthu tybaco ffug yn cyfiawnhau gwrthod cais i werthu alcohol. Nodwyd, fodd bynnag, petai collfarn o'r fath yn erbyn yr ymgeisydd gan Lys, roedd yn agored i unrhyw un wneud cais i adolygu'r drwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Nodwyd nad yw darpariaethau apêl yn gymwys i Safonau Masnach gan eu bod yn rhan o'r un corff â'r awdurdod trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 07.09.16

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Annwen Daniels ac Anwen Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Linda Morgan (Aelod Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – Brynffynnon, Love Lane, Dolgellau LL40 1RR**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais. Wrth amlygu absenoldeb gwrthwynebwyr y cais, gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Trwyddedu gadarnhau os oedd y gwrthwynebwyr wedi derbyn llythyr yn nodi dyddiad ac amser y gwrandawiad. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod llythyr wedi ei anfon at bob gwrthwynebydd gyda thystiolaeth yn cefnogi hyn.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Steven Holt
Ms Debra Harries
Mrs Angela Lienz
Mr Bernhard Lienz

**a) Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Brynffynnon, Love Lane, Dolgellau mewn perthynas â chyflenwi alcohol a dangos ffilmiau i unigolion nad ydynt yn breswylwyr gwely a brecwast sydd yn aros ar yr eiddo, ynghyd a'r hawl i weini lluniaeth hwyr y nos i rai nad ydynt yn breswylwyr rhwng 23:00 a 01:00 mewn digwyddiadau arbennig. Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig yn yr adroddiad.

Eglurwyd bod gan yr eiddo drwydded bresennol ar gyfer gwerthu alcohol a dangos ffilmiau i breswylwyr yr eiddo yn unig. Amlygwyd bod y cais yn cael ei gyflwyno er mwyn denu cwsmeriaid, nad ydynt yn breswylwyr i'r bwyty, a galluogi bod diodydd alcohol ar gael iddynt.

Nodwyd bod swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu gyda thystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod Cyngor Tref Dolgellau yn gefnogol i'r cais a bod chwe llythyr wedi eu derbyn yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus, atal trosedd ac anrhefn a diogelwch y cyhoedd. Amlygwyd bod yr holl wrthwynebwyr yn cyfeirio sail eu pryderon am anaddasrwydd y ffordd fynediad cul i gynnydd mewn traffig: pryder y byddai cynnydd mewn ymwelwyr i'r eiddo yn creu sefyllfa lle na fyddai cerbydau argyfwng yn cael mynediad i'r eiddo; bod yr eiddo o fewn ardal breswyl ddistaw ac y byddai caniatáu'r drwydded yn cynyddu sŵn; bod potensial o gynnydd mewn trosedd ac anrhefn

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
   - Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
   - Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
   - Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
   - Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
   - Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
   - Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:
   - Prif amcan y cais oedd gwerthu alcohol i rai nad ydynt yn breswylwyr
   - Mai cynhwysedd yr ystafell yw 20
   - Bod mannau parcio digonol yn y dref ynghyd a lle i hyd at 10 car ar y safle
   - O ran monitro sŵn, nodwyd y byddai cais i ymwelwyr ymadael a'r gwesty, yn drefnus ac yn ddistaw. Byddai bwyd yn cael ei weini rhwng 6:30pm ac 8:30pm gyda phobl yn gyffredinol yn ymadael am oddeutu 10:00pm. Gallai hyn fod yn hwyrach ar ddigwyddiadau arbennig, megis Nos Galan
   - Nid yw'r gwesty yn lle rhad i yfed a bwyta ac felly ni ragwelir cynnydd mewn troseddau - nid oedd unrhyw fwriad creu aflonyddwch - byddai rhaid ystyried eu preswylwyr, eu staff a'u cymdogion eu hunain
   - Bod y cais am drwydded ffilmiau yn codi oherwydd ceisiadau gan sefydliadau megis Merched y Wawr a Cyngor Gwynedd i logi ystafell gyfarfod / dangos ffilmiau byr
   - Bod y gwesty yn darparu llety gwyliau da a swyddi lleol
   - Bod darparu lluniaeth hwyr y nos yn wasanaeth ychwanegol mewn ymateb i geisiadau gan westai gwely a brecwast eraill
   - Cyfanswm posib i breswylwyr yw 16 ac felly, lle i 4 ychwanegol sydd yn bosibl

ch) Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd y byddai un person cyfrifol, dynodedig ar ddyletswydd ar y safle bob amser. Ychwanegwyd na fydd bar swyddogol ar gael - diodydd gyda bwyd yw'r bwriad gyda bocs gonestrwydd yn y lolfa i breswylwyr yn unig. Ni fydd unrhyw werthiant alcohol yn digwydd ar ôl 11pm. Ni fydd unrhyw aelod o staff o dan 18 oed yn gwerthu alcohol.

d) Cydnabuwyd y llythyrau a dderbyniwyd o'r cyfnod ymgynghori

Mynegwyd siom nad oedd y gwrthwynebwyr yn bresennol i fynegi eu sylwadau ac i ymateb i gwestiynau gan yr Is Bwyllgor

dd) Wrth grynhoi y cais, nododd yr ymgeisydd
   - Y bwriad yw peidio agor sefydliad gwerthu bwyd yn hwyr yn y nos gyda bar, ond ehangu'r drwydded bresennol er mwyn gweini bwyd da o safon uchel i rai di breswyl.

- Eu bod yn gydnabyddedig ar wefan www.visitwales.com; eu bod wedi ennill nifer o wobrau ac anrhydeddau – hyn oll yn hybu'r economi leol
- Nad oeddynt am beryglu eu henw da

e) Ymneilltuodd aelodau'r Is Bwyllgor o'r Siambr i drafod y cais ac fe ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd. Rhoddwyd sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

ynghyd â chanllawiau'r Swyddfa Gartref a pholisi trwyddedu'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor holl sylwadau'r ymgeisydd a oedd yn cadarnhau mai bwriad y cais oedd galluogi'r eiddo i ddarparu alcohol gyda phrydau bwyd, yn hytrach na o far, ar gyfer y rhai hynny nad oedd yn breswylwyr. Derbyniodd yr Is-bwyllgor gadarnhad bod mynediad i far gonestrwydd ar yr eiddo yn gyfyngedig i breswylwyr yn unig. Ystyriodd yr Is-bwyllgor yn ogystal sicrwydd yr ymgeisydd y byddai aelod o staff yn bresennol pan fo pobl di breswyl yn bresennol ar y safle. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, felly, bod y safle yn cael ei oruchwylio yn briodol.

Yn ychwanegol, rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i sylwadau'r partïon â diddordeb a oedd yn codi pryderon am ardrawiad posibl caniatáu'r drwydded ar ymddygiad gwrth gymdeithasol, sŵn a phroblemau traffig/parcio. Tra bo'r Is-bwyllgor yn derbyn bod pryderon o'r fath yn gallu o bosib fod yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus a sicrhau diogelwch cyhoeddus, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o ddigwyddiadau blaenorol ac nid oedd presenoldeb y partïon â diddordeb yn y gwrandawiad i ymhelaethu ar eu pryderon. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn mai ychydig iawn o bwysau, os o gwbl, y gellid ei briodoli i'r sylwadau hyn.

Diystyriodd yr Is-bwyllgor rhai sylwadau ar y sail eu bod yn amherthnasol, er enghraifft bod yna ddigon o sefydliadau trwyddedig yn y dalgylch.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:15pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 31.10.16

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Angela Russell ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Y Llangollen, Stryd Fawr, Bethesda**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Joseph Barrett (ymgeisydd)

**Aelod Lleol:** Cynghorydd Ann Williams (Ogwen)

**a) Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Y Llangollen, Bethesda mewn perthynas â chyflenwi alcohol a chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio ar yr eiddo.

Amlygwyd bod gan yr eiddo drwydded yn y gorffennol, ac fe ildiwyd y drwydded gan Punch Taverns (y perchnogion ar y pryd) yn mis Tachwedd 2015. Yn flaenorol, roedd y gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys cerddoriaeth fyw yn ogystal â cherddoriaeth wedi ei recordio.

Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig yn yr adroddiad ynghyd a chymhariaeth y gweithgareddau trwyddedig i'r drwydded flaenorol.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod yr Aelod Lleol a Chyngor Tref Bethesda yn gefnogol i'r cais, ond bod deunaw llythyr wedi eu derbyn yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus ac atal trosedd ac anrhefn. Amlygwyd bod yr holl wrthwynebwyr yn cyfeirio sail eu pryderon at ymddygiad gwrthgymdeithasol cwsmeriaid a materion niwsans cyhoeddus megis sŵn a sbwriel, gan nodi bod llawer o broblemau wedi codi yn y gorffennol pan roedd yr eiddo o dan berchnogaeth a rheolaeth eraill.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:
- Bod problemau hanesyddol gyda'r sefydliad dros y 5 mlynedd diwethaf
- Ei fod wedi buddsoddi a chanolbwyntio ar newid rhagolygon y sefydliad drwy adnewyddu ac ailddodrefnu'r dafarn a symud y byrddau pwl, y bwrdd dartiau a'r jiwc bocs oddi ar yr eiddo er mwyn creu bwyty.
- Bydd 10 aelod o staff yn cael eu cyflogi (lleol)
- Bod yr oriau cau yn caniatáu i'r eiddo reoli ymadawiad trefnus o bobl fel nad oes criw yn cronni ar y stryd ar ddiwedd noson
- Bod bwriad creu 8 ystafell wely gydag ystafell ymolchi yr un uwchben yr eiddo fel gwesty - hyn yn creu 4 swydd rhan amser ychwanegol

ch) Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi cytuno i argymhellion yr Heddlu a bod camerâu cylch cyfyng ynghyd ac offer recordio priodol wedi ei osod yn yr eiddo. Ynglŷn ar ardal ysmygu, nododd bod cyntedd yn cael ei adeiladu ar gefn yr adeilad i leihau sŵn wrth fynd i mewn ac allan i'r ardal ysmygu. Nodwyd hefyd bod y blychau llwch hefyd wedi eu huwchraddio ac nad oedd unrhyw gynlluniau i ymestyn yr ardal ysmygu.

d) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd y Cynghorydd Ann Williams (Aelod Lleol a chynrychiolydd Cyngor Cymuned Bethesda) y sylwadau canlynol:
- Mai'r bwriad oedd creu bwyty fyddai yn anelu at gwsmer gwahanol i gwsmer tafarn
- Nad oedd bwriad chwarae cerddoriaeth fyw - cerddoriaeth cefndir yn unig (llai o sŵn)
- Gwir angen busnesau ar Stryd Fawr Bethesda
- Y Llangollen yn ased i'r Stryd Fawr
- Dim cwynion wedi eu derbyn gan yr Aelod Lleol na Chyngor Cymuned
- Buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud i'r fenter
- Cefnogol iawn i'r fenter

dd) Cydnabuwyd y llythyrau a dderbyniwyd o'r cyfnod ymgynghori

Wrth amlygu absenoldeb gwrthwynebwyr y cais, gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Trwyddedu gadarnhau os oedd y gwrthwynebwyr wedi derbyn llythyr yn nodi dyddiad ac amser y gwrandawiad. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod llythyr wedi ei anfon at bob gwrthwynebydd gyda thystiolaeth yn cefnogi hyn.

Mynegwyd siom nad oedd y gwrthwynebwyr yn bresennol i fynegi eu sylwadau ac i ymateb i gwestiynau gan yr Is Bwyllgor. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â ffurf y gwrthwynebiadau, hynny yw bod cynnwys a ffurf pob llythyr yn gyson, amlygodd y Cyfreithiwr nad oedd

gwaharddiad i gyflwyno deiseb, ond bod rhaid i'r Is Bwyllgor ystyried sylwedd y dystiolaeth oedd yn cael ei gyflwyno.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd yr Aelod Lleol ei bod wedi darllen y gwrthwynebiadau a chadarnhaodd bod un o'r gwrthwynebwyr wedi ei ffonio yn pryderu am yr oriau cau. Ynglŷn â sylw at ganiau cwrw, amlygodd nad oedd caniau cwrw yn cael eu gwerthu yn Y Llangollen.

e) Wrth grynhoi ei gais, nododd yr ymgeisydd mai cynnal bwyty oedd y prif nòd - rhedeg yr eiddo fel tafarn wledig gyda bwyty ac ystafelloedd preswyl, ac nid annog pobl i ddod yno i yfed. Cadarnhaodd hefyd mai ef oedd perchennog y dafarn drws nesaf.

f) Wrth ystyried y cais ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd. Rhoddwyd sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

ynghyd â chanllawiau'r Swyddfa Gartref a pholisi trwyddedu'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn ddarostyngedig i argymhellion yr Heddlu**

Rhoddwyd y drwydded fel a ganlyn:

1. Gweithgareddau trwyddedig ac oriau yn unol â'r cais
2. Bod y materion oedd wedi eu cynnwys yn rhan M o'r cais yn cael eu hymgorffori fel amodau ar y drwydded
3. Ychwanegu'r amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu mewn perthynas â theledu cylch cyfyng i'r drwydded.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i sylwadau partïon â diddordeb oedd yn byw yn Stryd Glanrafon a Stryd Fawr Bethesda. Roedd y trigolion yn codi pryderon am ardrawiad posib caniatáu'r drwydded, ar ymddygiad meddw, gwrthgymdeithasol, sbwriel a sŵn. Derbyniwyd bod pryderon o'r fath yn berthnasol i bob un o'r pedwar amcan trwyddedu, ond ni chafodd yr Is-bwyllgor unrhyw fanylion o ddigwyddiadau / problemau yn y gorffennol o ran dyddiadau, amser, natur, amledd ayyb o'r cyfnod yr oedd gan yr eiddo drwydded. Heb wybodaeth o'r fath nid oedd modd i'r Is-bwyllgor benderfynu a fyddai rhoi'r drwydded yn debygol o arwain at ragor o broblemau fyddai'n tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Nododd yr Is-bwyllgor bod sylwadau'r gwrthwynebwyr yn dilyn yr un ffurf, gan godi amheuon a oedd y sylwadau yn rhai dilys neu yn ddeiseb neu ymgyrch wedi ei deilwra fel cyfres o sylwadau. Gan nad oedd presenoldeb y partïon â diddordeb yn y gwrandawiad i ymhelaethu ar eu pryderon, teimlodd yr Is-bwyllgor mai ychydig iawn o bwysau y gellid ei briodoli i'r sylwadau hyn.

Yn gryno roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais, ynghyd â'r amodau teledu cylch cyfyng a argymhellwyd gan yr Heddlu yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:15pm